# Teithiau Cerdded 'Pictiwrésg' yr Hafod mewn Natur Gwyllt

# Hafod's 'Picturesque' Walks in Wild Nature

**Ar ddiwedd y ddeunawfed ganrif, cynlluniwyd Ystâd yr Hafod yn yr arddull 'Pictiwrésg' gan Thomas Johnes (1748-1816) a daeth yn gyrchfan hanfodol bwysig i ymwelwyr oedd yn teithio i Gymru wrth chwilio am fywyd gwyllt – gyda nifer o ymwelwyr yn mawrygu llwybrau, golygfeydd, gerddi a phlasty'r Hafod yn ysgrifenedig.**

Erbyn heddiw mae'r plasty wedi mynd ac mae'r Hafod yn gorwedd o fewn coedwig sy'n cael ei thrin. Mae CNC yn rheoli'r Ystâd mewn partneriaeth ag Ymddiriedolaeth yr Hafod er mwyn gwarchod ac adfer y dirwedd hanesyddol, amddiffyn ei gynefinoedd pwysig, a darparu mynediad a mwynhad i gerddwyr trwy ail-greu rhwydwaith llwybrau Johnes.

**In the late eighteenth century, the Hafod Estate was designed in the 'Picturesque' style by Thomas Johnes (1748-1816) and became an essential destination for visitors touring Wales in search of wild nature – with many visitors extolling Hafod's paths, views, gardens and mansion in written accounts.**

Today the mansion has gone and Hafod lies within a working forest. NRW manages the Estate in partnership with the Hafod Trust to conserve and restore the historic landscape, protect its important habitats, and provide access and enjoyment for walkers by recreating Johnes's path network.

## Rhodfa'r Foneddiges (yn cynnwys Taith y Gerddi)

**Uchafbwyntiau:** Dilynwch lwybr hanesyddol heibio i raeadr a nodweddion allweddol o Ystâd Thomas Johnes.
**Amser:** 1¾ awr
**Pellter:** 2¼ milltir/3.6km
**Lefel:** Canolig

**Mae Rhodfa'r Foneddiges yn un o ddau lwybr cylchol clasurol wedi eu creu gan Thomas Johnes yn ei flynyddoedd cyntaf yn yr Hafod (1780au) ac a ddisgrifiwyd gan nifer fawr o'r ymwelwyr cynnar.**

Gwelir golygfeydd sy'n amrywio'n eang o ran cymeriad, gyda thir pori tonnog y parcdir yn cyferbynnu â dyffrynnoedd coediog cul a nentydd gwyllt.

Mae'r daith yn gadael y maes parcio ar hyd llwybr Pencreigiau (dim mynediad i gerbydau). Mae'n dilyn cefnen Cefn Creigiau i gyrraedd penrhyn trawiadol, lle mae llwybr dolennog byr yn arwain at yr olygfan orau. O'r fan hon, mae'r llwybr yn disgyn ac yn croesi caeau a borir, heibio **Bwthyn Pwll Pendre (16)** a safle'r **Plasty (18)** cyn dod at yr afon.

Ar ôl dilyn lôn yr ystâd am ychydig, mae'r llwybr yn disgyn tuag at ddôl ar lan yr afon. Ceir yma ddewis rhwng **Taith y Gerddi** – llwybr coetir cul ond eithaf gwastad sy'n mynd trwy'r **Ardd Flodau (13)** – neu lwybr y ddôl ar hyd yr afon. Mae'r ddau lwybr yn cyfarfod eto'n fuan yn agos i bont ffordd fodern, cyn parhau ar hyd afon Ystwyth a **Rhaeadrau Peiran (2)**. O'r fan hon mae'r daith yn dringo, yn serth mewn mannau, yn ôl i'r eglwys a'r maes parcio.

## Lady's Walk (includes the Garden Walk)

**Highlights:** Follow an historical route past a waterfall and key features of Thomas Johnes's Estate.

**Time:** 1¾ hours
**Distance:** 2¼ mile/3.6km
**Grade:** Moderate

**The Lady's Walk is one of two classic circular routes created by Thomas Johnes in his first years at Hafod (1780s) and described by many early visitors.**

It takes in scenery that varies widely in character, contrasting the undulating landscape of grazed parkland with narrow wooded valleys and rushing streams.

The walk leaves the car park along the Pen-creigiau track (no access for vehicles). It follows the ridge of Cefn Creigiau to arrive at a spectacular headland, where a short loop path leads to the best viewpoint. From here the walk descends to cross grazed fields, passing **Hawthorn Cottage (16)** and the site of the **Mansion (18)** before approaching the river.

After following an estate drive for a short distance, the walk descends towards a riverside meadow. Here there is a choice between the **Garden Walk** – a narrow but fairly level woodland path that passes through the **Flower Garden (13)** – or the meadow path along the river. Both routes soon meet again close to a modern road bridge, before continuing alongside the river Ystwyth and the **Peiran Falls (2)**. From here the walk climbs, steeply in places, back up to the church and the car park.

## Rhodfa'r Bonheddwr

**Uchafbwyntiau:** Rhyfeddwch at y nodweddion 'pictiwrésg' fel Lefel Lampwll, y Bont Wladaidd, y Twnnel a Rhaeadr 'Mossy Seat' ar y llwybr hanesyddol hwn.

**Amser:** 3 awr
(4-4 ½ awr o'r maes parcio ac yn ôl)
**Pellter:** 3¾ milltir/6km
(5¾ milltir/9km i gyd, o'r maes parcio)
**Lefel:** Anodd

**Mae Rhodfa'r Bonheddwr, yr ail gylchdaith 'bictiwrésg' enwog a grëwyd gan Johnes, yn mynd trwy olygfeydd gwylltach a thir mwy serth na'r teithiau cerdded eraill yn yr Hafod.**

Y man cychwyn ar gyfer y daith hon yw **Pont yr Alpau*(11).** Er mwyn ei chyrraedd, dilynwch Rodfa'r Foneddiges yn wrthglocwedd (gweler y map) heibio **Bwthyn Pwll Pendre (16)** a Chaeau'r Plasty. Ar ôl croesi Pont yr Alpau, trowch i'r chwith ac i fyny'r bryn. Mae'n bosibl cwtogi (neu ymestyn) y daith trwy ddilyn llwybrau cyswllt amrywiol, neu lwybrau eraill.

Uchafbwyntiau arbennig y daith yw'r llwyn ffawydd ym **Mhant Melyn (6), Lefel Lampwll (7)**, y **Twnnel (8), Rhaeadr 'Mossy Seat' a'r bont (9)** a'r **Bont Wladaidd (10)** dros nant Bwlchgwallter.

**Mae modd gadael y llwybr am ychydig yn union cyn Pont yr Alpau i weld **Tŷ'r Iâ (12).**

Noder mai'r Rhodfa'r Bonheddwr ydy'r llwybr mwyaf anodd o lwybrau'r Hafod, a dylech fod yn weddol heini gydag esgidiau addas i dir serth ac anwastad.

## Gentleman's Walk

**Highlights:** Marvel at 'picturesque' features like the Cavern Cascade, Rustic Bridge, Tunnel and Mossy Seat Falls on this historic trail.

**Time:** 3 hours
(allow 4-4 ½ hours from car park)
**Distance:** 3¾ miles/6km
(5¾ miles/9km total from car park)
**Grade:** Strenuous

**The Gentleman's Walk, the second celebrated 'picturesque' circuit created by Johnes, passes through wilder scenery and steeper ground than the other walks at Hafod.**

The starting point for this walk is the **Alpine Bridge*(11).** To reach it follow the Lady's Walk anti-clockwise (see map) via **Hawthorn Cottage (16)** and the Mansion Fields. After crossing the Alpine Bridge, turn left heading uphill. It is possible to shorten (or lengthen) the route by following various link paths, or other trackways.

Particular highlights on the walk are the beech tree grove at **Pant Melyn (6)**, the Cavern **Cascade (7)**, the **Tunnel (8)**, the **Mossy Seat Falls and bridge (9)** and the **Rustic Bridge (10)** over the Bwlchgwallter stream.

*A short diversion just before the Alpine Bridge takes in the **Ice House (12).**

Please note that the Gentleman's walk is the most strenuous of the Hafod Walks, and you should be reasonably fit with footwear suitable for steep and uneven ground.



*Bwthyn Hawthorn*
*Hawthorn Cottage*

## Taith Coed Hafod

**Uchafbwyntiau:** Edmygwch glychau'r gog a'r asaleas yn y gwanwyn, a'r golygfeydd dros yr Ystâd i'r bryniau tu hwnt.

**Amser:** ¾ awr (1½ awr o'r maes parcio ac yn ôl)
**Pellter:** ¾ milltir/1.2km
(1 ½ awr a 2.4km yna ac yn ôl)
**Lefel:** Canolig

**Mae Taith Coed Hafod yn mynd heibio gwahanol fathau o goetir, sy'n cynnal amrywiaeth mawr o fywyd gwyllt.**

Yn y gwanwyn, mae'n lliwgar gyda chlychau'r gog ac asaleas melyn. Mae ei thopograffi yn gymharol fwyn, ond mae'r golygfeydd o'r afon yn y pellter, caeau'r plasty a'r pwll, ac i'r bryniau yn y pellter yn hardd iawn ac yn rhoi ymdeimlad o ddarganfod y dirwedd o'r newydd.

Ewch ato o'r maes parcio drwy fynd ar hyd trac i **Bendre (17).** Y tu hwnt i'r tai preifat ar y chwith, mae'r daith yn troi i ffwrdd o'r llwybr ac yn symud ymlaen ar hyd ochr y bryn ar raddiant cymharol hawdd. Nid yw'n llwybr cylch felly er mwyn dychwelyd i'r man cychwyn rhaid i chi benderfynu ar lwybr dychwelyd trwy ddefnyddio teithiau neu lonydd eraill yr ystâd. Mae'r llwybr dychwelyd a awgrymir (wedi'i farcio ar y map gan linell frown) yn cysylltu'r llwybr â'r lôn isaf sy'n cael ei defnyddio'n anaml gan gerbydau.

## Coed Hafod Walk

**Highlights:** Admire the bluebells and azaleas in spring, and views over the estate to the hills beyond.

**Time:** ¾ hour (1½ hours there and back)
**Distance:** ¾ mile 1.2km
(1 ½ / 2.4km miles there and back)
**Grade:** Moderate


**The Coed Hafod Walk passes through different woodland types, supporting a great variety of wildlife.**

In spring it is colourful with bluebells and yellow azaleas. Its topography is relatively gentle, but the views from it to the distant river, the mansion fields and pond, and to distant hills are very fine and give a sense of discovering the landscape anew.

Get to it from the car park by taking the track to **Pendre (17).** Just beyond the private houses on the left, the walk branches right from the track and goes along the hillside at a fairly easy gradient. It is not a circular route so to return to your starting place you need to choose a return route using other walks or estate drives. A suggested return route (marked on the map by a brown line) links the route to the lower drive which is rarely used by vehicles.



*Gardd Flodau Mrs Johnes / Gardd Eden*
*Mrs Johnes's Flower Garden*





**Cyfarwyddiadau:** Ceir arwyddion brown i roi arweiniad i chi o Bontarfynach ar hyd y B4574 i faes parcio'r Hafod.

**Directions:** There are brown signs to guide you from Devil's Bridge via the B4574 to the Hafod car park.

## Taith Ceunant Ystwyth

**Uchafbwyntiau:** Profwch Geunant trawiadol Afon Ystwyth o'r Bont Shan, yn enwedig ar ôl glaw trwm.

**Amser:** ¾ awr (1½ awr o'r maes parcio ac yn ôl)
**Pellter:** 1 milltir/1.6km
(2milltir/3.2km awr o'r maes parcio ac yn ôl)
**Lefel:** Canolig

**Mae'r llwybr ysblennydd hwn yn mynd â chi ar hyd dolen hir, gul i fyny un ochr ceunant Ystwyth ac i lawr yr ochr arall.**

Mae'n cysylltu â Rhodfa'r Foneddiges a Rhodfa'r Bonheddwr a gellir ei gerdded fel ychwanegiad i'r naill neu'r llall. Er gwaethaf y golygfeydd trawiadol ar hyd y daith, mae'r graddiant ar y cyfan yn eithaf ysgafn, ond nid yw'n llwybr addas os nad ydych chi'n hoffi cwymp serth wrth ymyl y llwybr.

Y ffordd fwyaf uniongyrchol yw dilyn Rhodfa'r Foneddiges (pyst glas) yn glocwedd heibio'r eglwys ac ar hyd ffordd y goedwig.

Canolbwynt Taith Ceunant Ystwyth yw'r **Bont Shan (3).** Credir mai hi yw'r hynaf o'i bath yn Ewrop, cafodd ei hadfer yn 2003 gan ddefnyddio'r angorau craig gwreiddiol (1805) i gynnal rhodfa'r "stressed ribbon". Yn edrych i lawr dros y bont o bentir creigiog ar y lan deheuol y mae'r **Arcêd Gothig (4)** a gafodd ei adfer yn ddiweddar, sy'n ychwanegu drama i'r olygfa ogoneddus o'r ceunant oddi tano.

## Ystwyth Gorge Walk

**Highlights:** Experience the dramatic River Ystwyth gorge from the Chain Bridge, especially after heavy rain.

**Time:** ¾ hour (1½ hours from car park and back)
**Distance:** 1 mile/1.6km
(2miles/3.2km from car park and back)
**Grade:** Moderate

**This spectacular route takes you on a long, narrow loop up one side of the Ystwyth gorge and down the other.**

It connects with both the Lady's and Gentleman's Walks and can be walked as an addition to either. Despite the dramatic scenery along the walk, the gradients are for the most part fairly gentle, but it is not a route suitable if you dislike steep drops beside the path.

The walk is accessed most directly via the Lady's Walk (blue posts) by following it clockwise past the church and over the forest road.

The focal point of the Ystwyth Gorge Walk is the **Chain Bridge (3).** Thought to be the oldest of its type in Europe, it was restored in 2003 using the original (1805) rock anchors to support the "stressed ribbon" walkway. Overlooking the bridge from a rocky promontory on the south bank is the recently restored **Gothic Arcade (4)** which adds drama to the sublime scenery of the gorge below.



*Cofgolofn Bedford*
*Bedford Monument*

## Taith Cofgolofn Bedford

**Uchafbwyntiau:** Rhyfeddwch at y golygfeydd dros yr Hafod a thu hwnt o olygfan yr obelisg.

**Amser:** 1 awr
**Pellter:** 1 milltir/1.6km
**Lefel:** Canolig

**Mae'r daith hon yn mynd mewn cylch o gefnen Cefn Creigiau, ac yn cynnig golygfeydd hardd dros yr ystâd gan osgoi llawr y dyffryn.**

Mae'r daith yn gadael y maes parcio trwy ddilyn y llwybr tuag at **Bendre (17)** am bellter byr, yna'n troi i'r chwith ar hyd llwybr ar ochr y coetir, gyda golygfeydd ar draws y borfa tuag at **Fwthyn Pwll Pendre (16)** a Phendre, sef safle fferm maenor Johnes. Ar ôl dringo am sbel dewch at olygfan ac obelisg **(15)** (wedi ei adfer yn 1988), a godwyd ym 1805 i gofio Francis, sef 5ed Dug Bedford, 'hyrwyddwr doethaf a mwyaf hael Amaethyddiaeth Genedlaethol'. Y tu ôl iddo ceir Gardd Furiog fach **Miss Mariamne Johnes (14).** Trwy ddisgyn ar hyd llwybr igam-ogam, fe ddewch at y ffordd yn ôl sy'n dilyn llwybr gwastad i'r Eglwys.

Er nad yw'n gylchdaith hanesyddol, Taith Cofgolofn Bedford yw'r daith fyrraf a mwyaf hwylus o'r maes parcio.

## Bedford Monument Walk

**Highlights:** Take in the views over Hafod and beyond from the obelisk viewpoint.

**Time:** 1 hour
**Distance:** 1 mile/1.6km
**Grade:** Moderate

**Making a circuit of Cefn Creigiau ridge, this walk provides fine views over the estate and avoids descending to the valley floor.**

The walk leaves the car park by following the track, towards **Pendre (17)** for a short distance, then branches left along a path on the edge of woodland, with views across pasture to **Hawthorn Cottage (16)** and Pendre, the site of Johnes's home farm. A short climb brings you to a viewpoint and obelisk **(15)** (restored in 1988), erected in 1805 to commemorate Francis, 5th Duke of Bedford, 'the most judicious and munificent promoter of the National Agriculture'. Behind it is the small walled enclosure of **Mariamne Johnes's Garden (14).** By a zig-zag descent you reach the return path, which follows an evenly graded route to the church.

Although it is not a historical circuit, the Bedford Monument Walk is the shortest and most accessible walk from the car park.


Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales
**cyfoethnaturiol.cymru**
**naturalresources.wales**
**0300 065 3000**

**Ymddiriedolaeth Hafod Trust:**
hafod.org / trust@hafod.org
01974 282568
Rhif Elusen/Charity Number 1043127

**Swyddfa Ystad Hafod** / Hafod Estate Office
Pontrhydygroes, Ystrad Meurig
Ceredigion SY25 6DX


Os hoffech yr wybodaeth hon mewn fformat arall, cysylltwch â ni: Ffôn: 0300 065 3000
Ebost: ymholiadau@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk

If you would like this information in an alternative format, please contact us: Phone: 0300 065 3000
Email: enquiries@naturalresourceswales.co.uk


NRWRC0033

Mae coedwigoedd Cyfoeth Naturiol Cymru wedi'u hardystio'n unol â rheolau'r Forest Stewardship Council®
Natural Resources Wales forests have been certified in accordance with the rules of the Forest Stewardship Council®
FSC® C115912
Argraffwyd ar bapur Cocoon offset wedi'i ailgylchu 100%
Printed on Cocoon offset 100% recycled paper




cyfoethnaturiol.cymru
naturalresources.wales

Ystâd yr **Hafod** Estate

// Canllaw i'r teithiau cerdded
A guide to the walks

Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales

Llwybrau Coedwig
Forest Trails

## Er mwynhad pawb

## For the enjoyment of everyone

### Mwynhewch yr Hafod yn Ddiogel

**Mae'r holl deithiau yn cynnwys rhannau gyda disgynfeydd serth yn agos i'r llwybr. Gall y llwybrau droi'n llithrig mewn tywydd gwlyb. Argymhellwn eich bod yn gwisgo esgidiau cryf a dillad addas ar gyfer pob un o'n teithiau. Gall afonydd fod yn beryglus – mae'r dŵr yn aml yn oer, yn ddwfn ac yn llifo'n gyflym. Cymerwch ofal! Mewn argyfwng mae'r signal ffôn agosaf ar y B4574 rhwng maes parcio'r Hafod a Phontrhydygroes.**

### Mynediad i Bobl Anabl

Lleolir yr Hafod mewn cefn gwlad gwyllt. Byddwch yn dod ar draws camfeydd, tir serth a grisiau ar bob taith. Mae croeso i'r rhai gyda chyfyngiadau o ran symudedd barcio'u ceir yng Ngardd Flodau Mrs Johnes a mwynhau taith gerdded hamddenol o amgylch y gerddi, sydd â golygfeydd dros afon Ystwyth a safle picnic ger yr afon. Mae yna doiled i bobl anabl yn y maes parcio ger yr Eglwys Newydd.

### Mynediad i gerddwyr

- Byddwch yn ymwybodol o'r gwaith all fod yn mynd ymlaen yn y goedwig gyda pheiriannau peryglus.
- Gall fod nifer o gerbydau'n teithio ar hyd ffyrdd y goedwig – cymerwch ofal.
- Parchwch breifatrwydd y preswylwyr.
- Nid oes hawl gwersylla na chynnau tân.
- Peidiwch â dod â cheir neu feiciau modur ar yr ystâd – defnyddiwch y meysydd parcio dynodedig.
- Rydym yn croesawu cŵn a gedwir dan reolaeth, yn enwedig o amgylch da byw ac ar rannau mwy serth y llwybr. Mae gatiau cŵn wrth y camfeydd.
- Ewch â'r sbwriel a'r baw ci adref gyda chi. Diolch.

I gael mwy o wybodaeth neu i adrodd am unrhyw broblemau, cysylltwch â ni (gweler tudalen gefn y daflen hon i gael manylion cyswllt).

### Enjoy Hafod Safely

**All of the walks have sections with steep drops close to the path. Paths can become slippery in wet weather. Strong footwear and suitable clothing is recommended for all of our walks. Rivers can be dangerous - the water is often cold, deep and fast flowing. Take care! In an emergency the nearest mobile phone signal is on the B4574 between the Hafod car park and Pontrhydygroes.**


### Disabled Access

Hafod is in wild country. You will encounter stiles, steep ground and steps on all of the walks. If you have mobility restrictions you are welcome to park at Mrs Johnes Flower Garden and enjoy a gentle walk around the garden with views over the river Ystwyth and a riverside picnic site. There is an accessible toilet in the car park by Hafod Church.

### Access for walkers

- Please be aware work may be taking place in the forest with dangerous machinery
- There may be vehicles travelling along the forest roads – please take care
- Please respect the privacy of residents.
- Camping and fires are not allowed.
- Do not bring cars or motorcycles onto the estate – please use the designated parking areas.
- We welcome dogs provided they are kept under control, especially around livestock and on the steeper path sections. Dog gates are provided at stiles.
- Please take all rubbish and dog mess home. Thank you.

For more information or to report any problems please contact us (see back page of this leaflet for contact information).



Afon Ystwyth
Ystwyth River

## Cerdded yn ôl troed Thomas Johnes; Teithiau Cerdded Hanesyddol yr Hafod

**O fewn yr ystâd mae rhyw 15km (8-9 milltir) o lwybrau ar gael i gerddwyr – y rhan fwyaf yn dilyn llwybrau hanesyddol.** Mae'r pellterau a nodir ar gyfer pob taith o'r man cychwyn hyd y diwedd, ond sylwer nad yw pob taith yn dechrau nac yn gorffen yn y maes parcio ac felly gall fod yn bellach. Gallwch hefyd ddefnyddio rhwydwaith Hawliau Tramwy Cyhoeddus yn yr Hafod (gweler map Explorer 213 yr Arolwg Ordnans i gael mwy o wybodaeth).

## Walk in the footsteps of Thomas Johnes: Historical Hafod Walks

**There are some 15km (8-9 miles) of waymarked paths available to walkers at Hafod – most follow historical routes.** The distances given are for the length of the walk from its starting place to its end, but not all walks start or finish at the car park so additional distances are involved. You can also use the network of Public Rights of Way at Hafod (see Ordnance Survey Explorer map 213 for more information).



Pont Shân
Chain Bridge

## Darganfyddwch ragor am yr Hafod

## Discover more about Hafod

Rydyn ni'n argymell prynu'r llyfryn: ***The Hafod Landscape: an illustrated history and guide*** **gan Jennifer Macve.** Dysgwch ragor am hanes yr ystâd, ei bwysigrwydd i'r Pictiwrésg, y gwaith adfer diweddar, a disgrifiadau manwl o'r llwybrau cerdded.

Ar gael o siopau lleol am £5.00, neu drwy'r wefan **hafod.org** lle gallwch weld manylion cyhoeddiadau a gwybodaeth arall am hanes ac adferiad yr Hafod.

**We recommend buying the booklet:** ***The Hafod Landscape: an illustrated history and guide*** **by Jennifer Macve.** Discover more about the estate's history, its importance to the Picturesque, its recent restoration, and detailed descriptions of the walks.

Available from local shops for £5.00, or through the website **hafod.org** where you can find details of other publications and information on Hafod's history and restoration.




| TEITHIAU / WALKS | GRADDFA GRADE | PELLTER DISTANCE | CYSYLLTAU A DOLENNAU LINKS AND LOOPS |
|---|---|---|---|
| ○○○ (yellow) **Taith Cofgolofn Bedford** **Bedford Monument Walk** | Cymedrol Moderate | 1 milltir/1.6km 1 mile/1.6km | (yellow) Llwybrau cyswllt Link routes |
| ○○○ (blue) **Rhodfa'r Foneddiges** **Lady's Walk** | Cymedrol Moderate | 2¼ milltir/3.6km 2¼ mile/3.6km | (blue) Taith y Gerddi; dolen i'r olygfa Garden Walk; viewpoint loop |
| ○○○ (brown) **Taith Coed Hafod** **Coed Hafod Walk** | Cymedrol Moderate | ¾ milltir/1.2km ¾ mile 1.2km | (brown) Llwybrau cyswllt Link routes |
| ○○○ (green) **Taith Ceunant Ystwyth** **Ystwyth Gorge Walk** | Cymedrol Moderate | 1 milltir/1.6km 1 mile/1.6km | |
| ○○○ (red) **Rhodfa'r Bonheddwr** **Gentleman's Walk** | Anodd Strenuous | 3¾ milltir/6km 3¾ miles/6km | (red) Llwybrau cyswllt Link routes |



Lefel Lampwll
Cavern Cascade



Y Bont Wladaidd
Rustic Bridge

1. Eglwys Newydd – Hafod Church
2. Rhaeadr Peiran – Peiran Falls
3. Pont Shân – Chain Bridge
4. Arcêd Gothig – Gothic Arcade
5. Pont Dologau – Dologau Bridge
6. Pant Melyn
7. Lefel Lampwll – Cavern Cascade
8. Twnnel – Tunnel
9. Rhaeadr 'Mossy Seat' – Mossy Seat Falls
10. Y Bont Wladaidd – Rustic Bridge
11. Pont Alpaidd/Pont Wen – Alpine Bridge
12. Tŷ Rhew – Ice House
13. Gardd Flodau Mrs Johnes/Gardd Eden – Mrs Johnes' Flower Garden
14. Gardd Mariamne – Mariamne's Garden
15. Cofgolofn Bedford – Bedford Monument
16. Pwll Pendre – Hawthorn Cottage & pond
17. Pendre
18. Swyddfa'r Ystâd a safle'r Plas – Estate Office & Mansion site
19. Ffynnon Silenus – Silenus Fountain
20. Llwybr i Bont-rhyd-y-groes – Footpath to Pontrhydygroes